**<u>Pwyllgor Diwylliant 12-02 (p.3)</u>**

Dyddiad: 27 Mehefin 2002

Amser: 2.00 - 4.00pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**YMATEB LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU I'R MESUR CYFATHREBU DRAFFT**

**Cyflwyniad**

1. Mae gwasanaethau cyfathrebu yn bodoli mewn amgylchedd unigryw yng Nghymru, nid yn unig oherwydd bod Cymru yn wlad ddwyieithog , ond hefyd oherwydd ei thir mynyddig, sydd yn gosod her neilltuol ar gyfer darparu mynediad i wasanaethau cyfathrebu. Mae'r diwydiannau cyfathrebu, darlledu, gwybodaeth cyfathrebu a rheoli'r sbectrwm yn effeithlon yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru, felly mae unrhyw newid ym mholisi cyfathrebu o ddiddordeb neilltuol, nid yn unig i Lywodraeth y Cynulliad, ond hefyd i'r sefydliadau cenedlaethol sy'n hybu datblygu economaidd.

2. Mae rhai cymalau o'r Mesur drafft sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Gymru, heb gael eu drafftio eto ac felly bydd yn rhaid i ni aros cyn mynegi barn ar y materion sydd heb eu cyhoeddi.

1. **Strwythur, swyddogaeth, dyletswyddau a phwerau arfaethedig OFCOM**

    1. Mae'r ddogfen bolisi sy'n cyd-fynd â'r Mesur drafft yn cynnwys llawer o ddisgwyliadau positif o ran perthynas OFCOM â chenhedloedd y DU. Rydym yn pryderu na fydd y disgwyliadau hyn yn cael eu cyflawni, naill ai oherwydd nad oes sail ddeddfwriaethol gadarn iddynt, neu os ydynt yn cael eu cyflawni ar sail ewyllys da, y bydd y trefniadau yn cael eu diddymu yn y dyfodol.

        <u>Prif Fwrdd OFCOM</u>

    2. Hoffwn weld darpariaethau ar gyfer cynrychiolaeth benodol o'r cenhedloedd datganoledig ar Brif Fwrdd OFCOM. Dylai Cymru cael ei chynrychioli ar lefel uchaf OFCOM i sicrhau bod ei buddiannau a'i hamgylchedd darlledu unigryw a'r problemau mynediad yn cael eu hystyried yn llawn. Mae cynseiliau ar gyfer y math hwn o gynrychiolaeth yn bodoli gan fod Cymru wedi'i chynrychioli gan aelod dynodedig ar rai awdurdodau rheoleiddio sydd yn bodoli'n barod.

3. Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod swyddogaeth a chyfrifoldeb y Prif Fwrdd a'r Bwrdd Cynnwys yn glir ac yn amlwg er mwyn osgoi dyblygu.

<u>Bwrdd Cynnwys OFCOM</u>

4. Rydym yn croesawu yn fras y darpariaethau sydd wedi'u gwneud yn y Mesur ar gyfer cynrychiolaeth benodol i Gymru ar Fwrdd Cynnwys OFCOM. Er hynny, mae'r darpariaethau drafft sy'n berthnasol i gynrychiolaeth o Gymru ar y Bwrdd Cynnwys yng Nghymal 17 yn cynnwys y cafeat "*so far as is practicable*". Hoffem weld y cafeat hwn wedi'i hepgor i sicrhau nad oes amheuaeth neu amwysedd potensial ynghylch yr ymrwymiad hwn.

5. Rydym yn credu y dylai swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Cynnwys a chyrff eraill fel Awdurdod S4C a'r BBC fod yn glir ac yn amlwg er mwyn osgoi dyblygu mewn materion cynnwys.

6. Hoffem weld y Mesur yn gosod dyletswydd statudol ar OFCOM i ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, o leiaf, pan fydd OFCOM yn penodi aelod i Gymru ar y Bwrdd Cynnwys. Mewn egwyddor, rydym o'r farn y byddai'n ddymunol i'r Cynulliad Cenedlaethol gael y per i benodi'r aelod neilltuedig i Gymru.

<u>Panel Defnyddwyr OFCOM</u>

7. Rydym yn croesawu'r darpariaethau a wnaed yn y Mesur ar gyfer cynrychiolaeth benodol i fuddiannau Cymru ar Banel Defnyddwyr OFCOM (Cymal 97) ac eto hoffem weld y cafeat "*so far as practicable*" wedi'i adael allan.

8. Fel yn achos penodi aelod i Gymru ar y Bwrdd Cynnwys, dylai'r Mesur osod dyletswydd ar OFCOM i ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, o leiaf, os nad darparu ar gyfer penodi gan y Cynulliad ei hun, wrth benodi'r aelod i Gymru ar y Panel Defnyddwyr.

9. Nid yw dyletswyddau OFCOM o dan y Mesur ond yn cyfeirio at gwsmeriaid, lle mae'r ddogfen bolisi yn cyfeirio at ddinasyddion a defnyddwyr. Dylai'r Mesur osod dyletswyddau eglur ar OFCOM nid yn unig i gwsmeriaid, ond hefyd i aelodau o'r cyhoedd naill ai fel cynulleidfaoedd i wasanaethau di-dâl neu fel dinasyddion.

<u>Cyngor Cyfathrebu Cymru</u>

1.10 Hoffem weld sefydlu Cyngor Cyfathrebu i Gymru a fyddai'n ystyried holl swyddogaethau OFCOM yng Nghymru. Byddai dyletswydd arno i ystyried a chynghori ar faterion sy'n

ymwneud â chynnwys a materion defnyddwyr ond byddai'n rhydd i benderfynu sut i drefnu ei strwythur mewnol. Gallai, er enghraifft, sefydlu tri phanel: (i) cynnwys; (ii) defnyddwyr: (c) arbenigol, a fyddai'n cyfarfod ar wahân ac fel un corff.

Penodiadau i bwyllgorau OFCOM a chyrff *ad hoc* eraill

1.11 Mae'r ddogfen bolisi yn datgan y bydd disgwyl i OFCOM ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol a gweinyddiaethau datganoledig wrth benodi aelodau i gynrychioli buddiannau gwledydd datganoledig i'w bwyllgorau a chyrff *ad hoc* eraill. Hoffem weld dyletswydd statudol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud y penodiadau hyn ar y cyd ag OFCOM.

Ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru

1.12 Croesawn y ffaith y bydd disgwyl i OFCOM adeiladu ar y cysylltiadau a sefydlwyd eisoes gan rai o'r rheoleiddwyr sy'n bodoli eisoes gyda sefydliadau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, hoffem petai hyn yn cael ei ddatgan yn y Mesur fel dyletswydd cyffredinol ar OFCOM i ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ystyried sylwadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

1.13 Hoffem petai'r Mesur yn gosod dyletswydd penodol ar OFCOM i roi ystyriaeth ddyledus i'r sylwadau a gyflwynir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyfarfodydd rheolaidd yng Nghymru

1.14 Mae'r ddogfen bolisi yn nodi disgwyliad y bydd OFCOM yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd mewn gwahanol rhannau o'r DU. Mae hyn yn galonogol, ond hoffem petai'r Mesur yn gosod dyletswydd penodol ar OFCOM i gynnal cyfarfodydd o'r fath.

Ymchwil Defnyddwyr a Monitro Cynulleidfa

1.15 Mae'r ddogfen bolisi yn crybwyll y bydd disgwyl i OFCOM ystyried barn pobl yng ngwledydd y DU. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r Mesur drafft y gwneir yr ymchwil hyn o angenrheidrwydd ar sail gwledydd penodol. Credwn y dylai'r Mesur wneud hyn yn glir.

Rheoli'r Sbectrwm

1.16 Croesawn yr argymhelliad fod y Mesur drafft yn trosglwyddo i OFCOM holl swyddogaethau rheoli sbectrwm sydd yn cael eu harfer ar hyn o bryd gan yr Asiantaeth Radiogyfathrebu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, gan gynnwys

trwyddedu, ymchwiliadau i ymyrraeth a gorfodaeth.

Swyddfa OFCOM yng Nghymru

1.17 Croesawn ymrwymiad Llywodraeth y DU y bydd disgwyl i OFCOM sefydlu swyddfeydd ym mhob gwlad. Bydd yn hanfodol i OFCOM gynnal swyddfeydd ac iddynt adnoddau priodol ym mhob gwlad, a hoffem petai hyn yn cael ei gynnwys fel rhwymedigaeth benodol yn y Mesur.

## 2. Cynhyrchu a Rhaglenni Rhanbarthol

2.1 Bydd angen sicrhau cydbwysedd rhwng codi'r cyfyngiadau ar berchnogaeth o'r cyfryngau gan ddyletswyddau a phwerau i warchod safon a nodweddion allweddol darlledu yn y DU ac i sicrhau gwasanaethau darlledu lleol a rhanbarthau priodol. Mae'n bwysig nad yw atgyfnerthu yn arwain at ganolfannau tu allan i Lundain yn dod yn ddim ond 'swyddfeydd rhanbarthol' o gwmni Llundain-ganolog neu ryngwladol.

2.2 Mae rhaglenni rhanbarthol a chynhyrchu yn faterion pwysig iawn i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Mesur drafft yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhaglenni ar Sianel 3 (Cymal 194), a chynhyrchiadau rhanbarthol ar Sianel 3 (Cymal 193) a Sianel 4. (Cymal 195) 24. Mae Cytundeb presennol y BBC yn cynnwys darpariaethau perthnasol i ystyriaethau rhanbarthol. Croesawn y bwriadau y tu ôl i *Siarter ar gyfer y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau* a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan ITV. Rydym yn annog OFCOM i gymryd pob cam i sicrhau fod darlledwyr yn cytuno ar gwotâu sylweddol, manwl ac eglur parthed nifer yr oriau, cyfran a buddsoddiad mewn rhaglennu a chynhyrchu rhanbarthol.

2.3 Mae *Siarter* ITV yn cynnwys ymrwymiad y bydd gan bob trwydded ITV reolwr-gyfarwyddwr sy'n byw yn yr un rhanbarth. Er bod HTV yn gwasanaethu Cymru a de-orllewin Lloegr, dim ond un rheolwr-gyfarwyddwr sydd ganddo, ac mae'n byw yn Lloegr. Hoffem weld dau reolwr-gyfarwyddwr yn HTV i sicrhau fod y ddau ranbarth a wasanaethir yn cael eu cynrychioli yn gyfartal.

## 3. Mynediad

Diffodd teledu analog

3.1 O ystyried y sialens o sicrhau teledu digidol i bob rhan o'r DU, hoffem i'r Mesur osod dyletswydd penodol ar OFCOM sy'n adlewyrchu ymrwymiadau Llywodraeth y DU yn agosach parthed argaeledd (fod rhaid i'r holl wylwyr sy'n gallu derbyn teledu analog nawr (99.4 y cant) fedru derbyn y prif sianeli 'free-to-air' yn ddigidol); parthed y nifer o bobl sy'n dewis cael teledu digidol (rhaid i 95 y cant o ddefnyddwyr fod â derbynnydd digidol yn y cartref) a pharthed fforddiadwyedd (rhaid i'r newid i deledu digidol fod o fewn gafael i bobl ar incwm isel neu

incwm sefydlog) ar gyfer gwasanaethau teledu digidol ar y nifer fwyaf o lwyfannau.

3.2 Hefyd, hoffem weld holl wledydd a rhanbarthau y DU yn cwrdd â'r prawf hwn ar wahân cyn y cytunir i ddiffodd teledu analog.

Derbyn sianeli teledu o Gymru

3.3 Er lles cynhwysiant, democratiaeth, a llywodraethu agored mae angen i holl bobl Cymru fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl derbyn sianeli teledu o Gymru (BBC ONE Wales, BBC TWO Wales, BBC 2W, HTV Wales, S4C, S4C Digidol ac S4C-2). Mae ymchwil wedi dangos nad yw rhai pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy’n agos at y ffin â Lloegr yn ymwybodol fod yr opsiwn hwn yn bodoli. Rydym yn gryf o'r farn y dylai hyn fod yn opsiwn ymarferol i'r holl bobl hynny yng Nghymru a hoffai dderbyn sianeli teledu o Gymru. Rydym yn croesawu'r trefniadau y mae darlledwyr Cymreig wedi gwneud gyda theledu lloeren ddigidol i sicrhau fod eu gwasanaethau yn cael eu darparu i gartrefi yng Nghymru.

3.4 Credwn ei bod yn bosibl y bydd angen marchnata argaeledd signalau digidol o drosglwyddyddion yng Nghymru, fel bod pawb yn ymwybodol, er enghraifft, fod Channel 4 ac S4C Digidol ar gael o drosglwyddyddion yng Nghymru sy'n cario teledu digidol daearol yn ogystal â gwasanaethau Cymreig o'r BBC ac ITV. Rydym yn annog Llywodraeth y DU i ystyried rhoi cymorth i bobl a hoffai ailgyfeirio ac/neu uwchraddio eu herial er mwyn derbyn sianeli digidol daearol Cymreig.

3.5 Hoffai rhai Cymry sy'n byw mewn ardaloedd sy'n agos at y ffin â Lloegr dderbyn sianeli teledu o Gymru, ond ni fedrant wneud oherwydd rhesymau technegol. Bydd diffodd teledu analog yn rhoi cyfle i alluogi’r gwylwyr hynny i gyrchu teledu o Gymru. Wrth i analog gael ei ryddhau o'r sbectrwm, bydd hi'n bosibl i ddarlledu y sianeli Cymreig mewn amlblecs digidol unigol o'r lleoliadau trosglwyddo cyfagos yn Lloegr sef Mendip, Wrekin a Winter Hill. Ni fyddai hyn yn amddifadu unrhyw wylwyr yn Lloegr o'r gwasanaethau a ddewiswyd ganddynt, ond mi fyddai'n sicrhau y gall gwylwyr yng Nghymru gyrchu eu sianeli hwy. Rydym yn annog Llywodraeth y DU i ystyried hyn pan fyddant yn penderfynu pa ddefnydd a wneir o'r rhannau o'r sbectrwm a ryddheir ar ôl i deledu analog gael ei ddiffodd.

Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus

3.6 Er bod rhaid i deledu cebl a theledu digidol daearol gario'r gwasanaethau darlledu cyhoeddus (BBC, ITV, S4C, Channel 4 a Channel 5), nid yw hyn ddim yn ofynnol ar hyn o bryd i deledu digidol lloeren er bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cario drwy gontract. Rhaid i ddarlledwyr sy'n cynnig eu gwasanaeth i deledu digidol lloeren dalu i ddefnyddio'r system cyrchu amodol, sy'n galluogi'r gwylwyr i gyrchu'r sianeli, ac yn darparu cardiau 'smart' ar gyfer gwylwyr teledu lloeren nad ydynt yn tanysgrifio i sianeli talu. Gall BSkyB hefyd godi tâl ar y gwasanaethau darlledu cyhoeddus er mwyn cyfrannu at gostau’r bocsys sy'n eistedd ar ben

setiau teledu. Gan fod BSkyB wedi penderfynu rhoi eu bocsys i'r gwylwyr yn rhad ac am ddim, mae gwasanaethau darlledu cyhoeddus i bob pwrpas yn rhoddi cymhorthdal o gryn swm o arian i fenter fasnachol. Mae'n ymddangos o'n safbwynt ni fod hyn yn rhoi mantais gystadleuol annheg i'r llwyfan lloeren dros y llwyfannau sy'n cystadlu yn eu herbyn ac mae hefyd yn dargyfeirio arian a all gael ei fuddsoddi yn well mewn rhaglenni gan y gwasanaethau darlledu cyhoeddus.

Felly cefnogwn y galw am gymhwyso'r ddarpariaeth 'must carry' i'r llwyfan lloeren, cyn gynted â phosibl, a chyn diffodd analog, er mwyn creu 'cae chwarae gwastad.'

3.7 Mae hyn yn fater o'r pwys mwyaf i Gymru, lle nad yw teledu digidol cebl a theledu digidol daearol yn cyrraedd bob man a lle mae teledu digidol lloeren yw'r unig (ac o bosibl a fydd yr unig) llwyfan digidol i lawer o bobl. Mae'r ddogfen bolisi (8.2.2.4) yn datgan y bydd y Mesur yn darparu i OFCOM osod nifer o rwymedigaethau er mwyn sicrhau bod sianeli gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn gyffredinol, yn rhad ac am ddim lle maen nhw'n cael eu derbyn, *ar ôl diffodd teledu analog*. Gan nad oes dyddiad wedi ei gytuno ar gyfer diffodd teledu analog, credwn fod y drafft yn llai na boddhaol ar y mater hollbwysig hwn o fynediad. Dylai darllediadau gwasanaeth cyhoeddus fod ar gael yn gyffredinol yn rhad ac am ddim, ac mae angen diogelu hyn drwy ychwanegu cymalau i'r Mesur a fydd yn sicrhau bod hyn yn digwydd, ar draws pob llwyfan, cyn gynted â phosibl, a *chyn diffodd teledu analog*

3.8. Ar hyn o bryd mae Sianel 3 a Sianel 5 yn gorfod mynd drwy broses fanwl i adnewyddu'u trwydded yn rheolaidd. Rhaid i'r trwyddedai allu dangos sut mae wedi bodloni'r gofynion gwasanaeth cyhoeddus a'r gofynion eraill ac adolygir y swm a delir am ddal y drwydded i sicrhau ei fod yn ddigonol ac yn briodol. Nodwn fod y mesur drafft yn cynnig diddymu'r system ac na fydd hawl adnewyddu ar ôl 2014. Rydym yn pryderu y gall hyn, wrth ddynesu at 2014, fod yn anghymelliad i ddarlledwr Sianel 3 Cymru fuddsoddi a phwyswn ar Lywodraeth y DU i sicrhau na fydd y drefn newydd yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd darlledu yng Nghymru.

<u>S4C2</u>

3.9 Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno y dylai S4C gael caniatâd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ychwanegol yn amodol ar gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd hyn yn galluogi S4C i oresgyn yr anghysondeb presennol lle mae darlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol ar S4C wedi cael ei drwyddedu gan yr ITC fel 'menter fasnachol'. Yn y dyfodol, bydd yn bosibl i Awdurdod S4C gynnig y gwasanaeth hwn fel gwasanaeth cyhoeddus yn ei hawl ei hun. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu bod darlledu trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfraniad hollbwysig i lywodraeth agored yng Nghymru a chefnogwn yr ehangu yng nghylch gorchwyl gwasanaeth cyhoeddus S4C (Cymal 145 a pharagraff 3 o Atodlen 8).

<u>Canllawiau Rhaglenni Electronig</u>

3.10 Croesawn y ddarpariaeth (Cymal 209) y bydd yn ofynnol i OFCOM lunio codau ymarfer sy'n rheoli gweithrediad canllawiau rhaglenni electronig (EPGs). Mae'r cynigion sy'n ymwneud â'r amlygrwydd y dylid ei roi i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar EPGs yn arbennig o berthnasol yn achos sianeli darlledu cyhoeddus Cymru, gan gynnwys gorsafoedd radio gwasanaeth cyhoeddus a ariennir gan ffioedd trwydded e.e. Radio Cymru a Radio Wales, ac S4C yn arbennig, y gofynnir iddynt gario ystod eang o raglenni, ond nad ydynt yn cael eu rhestri o dan gategorïau megis 'plant' 'ffilmiau' neu 'chwaraeon'. Yn fwyfwy, dosberthir gwybodaeth ar EPGs fesul categori rhaglen, ac mae'n cael ei chyflwyno mewn dull sy'n tueddu rhoi amlygrwydd arbennig i'r sianeli hynny nad ydyn nhw ond yn cario rhaglenni o fewn y categori hwnnw. Mae lleoliad y gwasanaethau o fewn y rhestr gyffredinol yn achos pryder hefyd, gan nad yw S4C, er enghraifft wedi ei lleoli yn rhif '4' ar y dudalen 'pob sianel' ar deledu digidol cebl ac nid yw HTV Cymru bob amser i'w gael yn rhif '3' ar bob gwasanaeth. Credwn y dylai pob sianel gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru fod yn briodol o amlwg ar EPGs a chredwn y dylai cod ymarfer arfaethedig OFCOM sicrhau amlygrwydd priodol ar gyfer mathau allweddol o raglenni Cymraeg a Chymreig ar EPGs ar sail ein hamgylchedd ieithyddol a diwylliannol unigryw.

3.11 Mae i'r polisi sy'n rheoli EPGs oblygiadau pwysig i genhedloedd fel Cymru, lle nad oes ond cystadleuaeth gyfyngedig rhwng llwyfannau digidol. Os yw EPGs i fod yn offer sy'n helpu gwylwyr yn hytrach na bod yn offer marchnata ar gyfer sianeli penodol, rhaid i'r pwerau a argymhellir i OFCOM yn y maes hwn fod yn ddigon hyblyg a phwerus i sicrhau cae chwarae gwastad i bawb.